# Effeithiolrwydd Trefniadau Atal Twyll – **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru** (WAST)

Blwyddyn archwilio: 2020

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1927A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn ei rinwedd unigol, nac i unrhyw drydydd parti, mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arferion a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru drwy e-bostio swyddog.gwyboaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae'r Ymddiriedolaeth yn dangos ymrwymiad clir i atal twyll, mae ganddi drefniadau addas i gefnogi atal a chanfod twyll ac mae'n gallu ymateb yn briodol lle mae twyll yn digwydd.


Adroddiad cryno

Cefndir 4

Prif ganfyddiadau a meysydd i'w gwella 5

Adroddiad manwl

Ein canfyddiadau 6

Atodiadau

Atodiad 1 – adnoddau atal twyll 13

Atodiad 2 – ymateb y rheolwyr 14

# Adroddiad cryno

## Y cefndir

1 Ar 11 Mehefin 2019, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol **Trefniadau Atal Twyll yn Sector Cyhoeddus Cymru: Trosolwg ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**. Roedd yr adroddiad yn adolygiad disgrifiadol, lefel uchel o'r trefniadau sydd ar waith o fewn Llywodraeth Cymru, y GIG a llywodraeth leol (awdurdodau unedol yn unig), ac yn amlygu rhai negeseuon pwysig:

- mae colledion a achosir gan dwyll yn y sector cyhoeddus yn sylweddol. Mewn cyfnod o gyni, mae pob punt a gollir i dwyll yn bunt y gellid ei gwario ar wasanaethau cyhoeddus.
- mae twyll o bob math yn esblygu'n gyson, felly mae angen i fesurau atal twyll gadw i fyny gyda'r twyllwyr.
- mae'r adnoddau a neilltuir i weithgarwch atal twyll yn amrywio'n fawr ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

2 Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, cymeradwyodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gynnig yr Archwilydd Cyffredinol i wneud gwaith pellach ar draws ystod o gyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i archwilio pa mor effeithiol yw'r trefniadau atal twyll yn ymarferol ac argymell gwelliannau. Gwnaed y gwaith hwn rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Chwefror 2020.

3 Ar 30 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad cenedlaethol o'r enw **'Gwella ein Perfformiad' – Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru** sy'n crynhoi canfyddiadau allweddol ein hadolygiad ledled Cymru. Nid yw'n disgrifio'n fanwl y trefniadau sydd ar waith mewn cyrff unigol, ond mae'n nodi amrywiaeth o gyfleoedd i wella trefniadau atal twyll ledled Cymru.

4 Er i'r adroddiad cenedlaethol nodi mai trefniadau atal twyll y GIG yw'r rhai mwyaf datblygedig ar draws y sector cyhoeddus, nododd fod agenda heriol o hyd i wneud atal twyll yn addas ar gyfer y degawd nesaf lle mae globaleiddio a dyfodiad technoleg ddigidol wedi creu risgiau newydd, a chyfleoedd i'r twyllwyr.

5 Mae'r adroddiad yn galw ar gyrff y GIG i fodloni eu hunain:

- bod adnoddau atal twyll yn cael eu pennu ar sail asesiad o ffactorau risg lleol;
- bod asesiadau risg atal twyll wedi'u hintegreiddio â threfniadau rheoli risg corfforaethol;
- bod strategaethau ar waith i wneud mwy o ddefnydd o ddadansoddiadau data i atal a chanfod twyll;
- bod strategaethau ar waith i wella cydweithredu o fewn y sector ac yn ehangach ar draws ffiniau'r sector.

6 Mae'r adroddiad cryno hwn yn nodi ein hasesiad o drefniadau Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (yr Ymddiriedolaeth) ar gyfer atal a chanfod twyll. Mae ein hasesiad yn seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau, gan gynnwys papurau'r bwrdd a phapurau pwyllgorau, a chyfweliadau gyda nifer fach o staff.

## Prif ganfyddiadau a meysydd i'w gwella

7 Nododd ein hasesiad fod yr Ymddiriedolaeth yn dangos ymrwymiad clir i atal twyll, bod ganddi drefniadau addas i gefnogi atal a chanfod twyll a'i bod yn gallu ymateb yn briodol lle mae twyll yn digwydd. Nodir ein canfyddiadau allweddol o'r gwaith yn fanylach yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

8 Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, nodwyd rhai meysydd i'w gwella (**Arddangosyn 1**); dylid eu hystyried ochr yn ochr â'r themâu a nodwyd yn yr adroddiad cenedlaethol. Mae ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i'r meysydd i'w gwella ar gael yn **Atodiad 2**.

**Arddangosyn 1: meysydd i'w gwella**

| **Meysydd i'w gwella** |
| --- |
| **Hyfforddiant atal twyll**<br>I1 Rhoi hyfforddiant atal twyll gorfodol ar waith ar gyfer rhai neu bob un o’r grwpiau staff. |
| **Capasiti staff atal twyll**<br>I2 Ystyried y capasiti Arbenigwr Atal Twyll Lleol sydd ei angen i ddarparu adnoddau ar gyfer y lefelau gofynnol o waith rhagweithiol ac ymchwiliol, gan gynnwys hyfforddi staff, a meithrin cydnerthedd yn y tîm. |
| **Asesu risg**<br>I3 Llunio asesiad risg atal twyll yn unol â phroses rheoli risg bresennol yr Ymddiriedolaeth, i ategu'r adolygiad blynyddol o'r risgiau a nodir mewn cynlluniau gwaith blynyddol. |

Ffynhonnell yr arddangosyn: Archwilio Cymru

# Adroddiad manwl

## Ein canfyddiadau

9 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r meysydd ffocws yn ein gwaith a'n canfyddiadau.

**Arddangosyn 2: meysydd gwaith a chanfyddiadau**

| Meysydd gwaith | Canfyddiadau |
| --- | --- |
| Ystyriwyd a yw'r haen uchaf yn dangos ymrwymiad i atal twyll ac yn darparu'r arweinyddiaeth angenrheidiol i ymladd twyll.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• y Bwrdd/Tîm Gweithredol yn hyrwyddo ymrwymiad clir i ddim goddefgarwch o dwyll a hyrwyddo gwaith atal twyll;<br>• uwch arweinwyr yn mynd ati i hyrwyddo a rhaeadru diwylliant atal twyll;<br>• dealltwriaeth ar draws y sefydliad o gyfrifoldebau dros atal twyll ac i roi gwybod am dwyll tybiedig; ac<br>• ymrwymiad sefydliadol i hyfforddiant ymwybyddiaeth o atal twyll a moeseg, gyda hyfforddiant gorfodol priodol wedi'i dargedu ar atal twyll i'r holl staff. | Gwelsom yr arfer da canlynol:<br>• y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol yw'r swyddog gweithredol y Bwrdd sy'n gyfrifol am atal twyll.<br>• mae atal twyll yn eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor Archwilio.<br>• mae polisïau a strategaethau yn cyfleu neges gyson na fydd twyll yn cael ei oddef, ac y bydd pob cam yn cael ei gymryd i gymryd camau troseddol neu ddisgyblu yn erbyn tramgwyddwyr. Mae'r Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod llinellau cyfathrebu effeithiol rhwng y rhai sy'n gyfrifol am waith atal twyll, llwgrwobrwyo ac arferion llwgr a grwpiau staff a rheolwyr allweddol eraill o fewn y sefydliad.<br>• mae'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol yn darparu diweddariadau rheolaidd a gyhoeddir mewn cylchlythyr mewnol. Mae'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol hefyd yn cysylltu â Thîm Cyfathrebu'r Ymddiriedolaeth i roi cyhoeddusrwydd i newyddion atal twyll o fewn y sefydliad.<br>• mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r wasg ac ar y cyfryngau cymdeithasol am newyddion a datblygiadau atal twyll.<br>Nodwyd y maes canlynol i'w gwella:<br>• nid yw hyfforddiant atal twyll yn orfodol. |

| Meysydd gwaith | Canfyddiadau |
| --- | --- |
| Ystyriwyd a oes gan y sefydliad strwythur addas ac adnoddau medrus digonol i atal a chanfod twyll.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• Arbenigwr Atal Twyll Lleol dynodedig sydd â chyfrifoldeb dynodedig am atal twyll a'r gallu i ddylanwadu ar lefel yr adnoddau atal twyll;<br>• lefel briodol o staff atal twyll profiadol, hyfforddedig ac achredig i gynnal ymchwiliadau a gwaith atal twyll;<br>• eglurder o ran rolau, cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd atal twyll;<br>• buddsoddiad mewn atal twyll yn seiliedig ar benderfyniadau gwybodus sy'n deillio o dwyll sy'n tynnu sylw at risgiau ac sy'n pennu'r adnoddau sydd eu hangen i fynd i'r afael â nhw; a<br>• rhaglen flynyddol o waith atal twyll rhagweithiol sy'n ymdrin â'r risgiau a nodwyd yn yr asesiad risg gydag amser wedi'i neilltuo i waith rhagweithiol. | Gwelsom yr arfer da canlynol:<br>• mae gan yr Ymddiriedolaeth Arbenigwr Atal Twyll Lleol arweiniol dynodedig, gyda'r gallu i ddylanwadu ar lefel yr adnoddau atal twyll a ddyrennir gan y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol.<br>• (**Atodiad 1**). Lefel cyfwerth ag amser llawn (WTE) yr adnoddau atal twyll lleol fesul 1,000 o staff yw 0.57 WTE o'i gymharu â chyfartaledd GIG Cymru sef 0.19 WTE. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflogi dau arbenigwr atal twyll profiadol sydd wedi'u hachredu'n llawn.<br>• mae'r Ymddiriedolaeth wedi mynegi rolau a chyfrifoldebau atal twyll yn glir. Ceir protocol sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau'r timau atal twyll, cyllid a gweithlu mewn perthynas â mynd ar drywydd sancsiynau twyll.<br>• mae gan yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol a'r staff atal twyll fynediad i'r holl systemau, cofnodion ac adeiladau sydd eu hangen i wneud eu gwaith.<br>• lle nodir materion (risgiau), cânt eu hymgorffori yn y cynllun gwaith atal twyll, ynghyd ag unrhyw faterion/risgiau a nodwyd drwy waith atal twyll cyffredinol. Mae'r cynllun gwaith yn nodi blaenoriaethau gwaith rhagweithiol ar gyfer y flwyddyn.<br>Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:<br>• er bod y lefelau staffio ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, dim ond 2.0 WTE yw'r lefelau staffio. Pe bai lefel y gwaith ymchwilio yn cynyddu, neu pe bai unrhyw aelod o staff yn absennol, gallai hyn effeithio ar y gallu i gyflawni'r lefel o waith atal twyll rhagweithiol y cytunwyd arno.<br>• yn ystod 2018-19, darparwyd hyfforddiant atal twyll i 222 o aelodau staff, ac mae hyn yn cynrychioli llai na 6.5% o weithlu'r Ymddiriedolaeth. |

| Meysydd gwaith | Canfyddiadau |
| --- | --- |
| Ystyriwyd a oes gan y sefydliad fframwaith polisi cadarn i gefnogi trefniadau atal twyll effeithiol.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• strategaeth/polisi atal twyll sy'n nodi dull y sefydliad o reoli risgiau twyll ac sy'n diffinio cyfrifoldebau atal twyll penodol;<br>• Cod Ymddygiad sy'n nodi ymddygiadau derbyniol a sut i adrodd a rheoli gwrthdaro buddiannau;<br>• trefniadau chwythu'r chwiban cadarn sy'n nodi mecanweithiau ar gyfer rhoi gwybod am dwyll;<br>• cofrestri'n cael eu cynnal o roddion a lletygarwch; a<br>• sgrinio cyn cyflogi. | Gwelsom yr arfer da canlynol:<br>• mae gan yr Ymddiriedolaeth Bolisi Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth cynhwysfawr (y polisi), a gyhoeddwyd yn 2018 ac y bwriedir ei adolygu yn 2021. Mae'r polisi'n cynnwys cynllun ymateb atal twyll.<br>• mae ymwybyddiaeth staff o'r polisi yn cael ei fesur gan arolygon o ymwybyddiaeth o atal twyll.<br>• mae gan yr Ymddiriedolaeth God Ymddygiad priodol, a pholisïau chwythu'r chwiban a seiberddiogelwch gyda phrosesau adolygu ac adnewyddu ar waith.<br>• mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol i gynnal ac adolygu cofrestri buddiannau, rhoddion a lletygarwch.<br>• mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau ar waith i sicrhau y gwneir y gwiriadau cyn cyflogi priodol ar gyfer pob aelod newydd o staff cyn iddynt ddechrau gweithio i'r sefydliad.<br>Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella. |

| Meysydd gwaith | Canfyddiadau |
|---|---|
| Ystyriwyd a oes gan y sefydliad asesiad risg twyll effeithiol ynghyd ag ymatebion priodol i faterion sy'n dod i'r amlwg.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• asesiadau risg twyll rheolaidd a chynhwysfawr yn cael eu trafod a'u cytuno gydag uwch arweinwyr a'r Pwyllgor Archwilio;<br>• asesiadau risg twyll wedi'u cynnwys fel rhan o fframwaith rheoli risg cyffredinol y sefydliad; a<br>• risg twyll wedi'i chynnwys wrth ddylunio systemau er mwyn lleihau'r cyfleoedd ar gyfer twyll. | Gwelsom yr arfer da canlynol:<br>• mae'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol yn gwerthuso’r risg o dwyll o ddydd i ddydd er mwyn llywio'r broses o bennu blaenoriaethau yn y cynllun gwaith atal twyll blynyddol.<br>• mae lefelau adnoddau atal twyll yn gymesur â'r lefel risg a nodwyd. Mae mesurau i liniaru risgiau a nodwyd wedi'u cynnwys yn y cynllun gwaith, a gymeradwyir gan y Pwyllgor Archwilio.<br>• mae'r risg o dwyll yn rhan o fframwaith rheoli risg cyffredinol yr Ymddiriedolaeth.<br>• mae'r Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg, 2018-2021, yn nodi mai cyfrifoldeb rheolwyr llinell yw nodi a rheoli risgiau twyll sy'n digwydd yn sgil rhedeg yr Ymddiriedolaeth o ddydd i ddydd. Dim ond os ydynt yn brif risg benodedig neu'n cael effaith ar nodau strategol y mae angen i'r Bwrdd ystyried y risgiau hynny, ac os felly byddai'r risg yn cael ei symud i Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.<br>• mae polisïau a gweithdrefnau papur yn cael eu diogelu rhag twyll gan ddefnyddio canllawiau a gyhoeddwyd gan Awdurdod Atal Twyll y GIG. Mae'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol yn adolygu polisïau ac yn cynnig newidiadau lle bernir bod hynny'n angenrheidiol.<br>• mae'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol yn cyfarfod â rheolwyr caffael i drafod a hyrwyddo twyll a mesurau atal twyll.<br>Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:<br>• mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu risgiau bob blwyddyn ac yn nodi'r rhain yn y cynllun atal twyll blynyddol. Byddai hyn yn cael ei wella drwy gynhyrchu asesiad risg atal twyll yn unol â phroses rheoli risg bresennol yr Ymddiriedolaeth, i ategu'r adolygiad blynyddol o'r risgiau a nodir mewn cynlluniau gwaith blynyddol. |

| Meysydd gwaith | Canfyddiadau |
|---|---|
| Ystyriwyd a yw amgylchedd rheolaeth fewnol y sefydliad yn cefnogi trefniadau effeithiol ar gyfer atal a chanfod twyll.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• rheolaethau mewnol wedi'u cynllunio a'u profi i fynd i'r afael â risgiau twyll a nodwyd a helpu i atal twyll rhag digwydd;<br>• adolygiadau archwilio mewnol o risgiau twyll a phrofi rheolaethau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll;<br>• y sefydliad yn gweithredu ar argymhellion i gryfhau rheolaethau os gwelir nad yw rheolaethau mewnol yn gweithredu cystal â'r bwriad a bod gwersi'n cael eu dysgu o ddigwyddiadau twyll; a<br>• bod y sefydliad yn defnyddio paru data i ddilysu data a chanfod gweithgarwch a allai fod yn dwyllodrus. | Gwelsom yr arfer da canlynol:<br>• mae tîm Archwilio Mewnol yr Ymddiriedolaeth yn adolygu risgiau twyll ac yn profi rheolaethau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll fel rhan o'i raglen waith flynyddol. Mae gwybodaeth a chudd-wybodaeth yn cael eu rhannu â gwasanaethau atal twyll lleol yn unol â'r protocol rhannu gwybodaeth y cytunwyd arno.<br>• mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu ar argymhellion i gryfhau rheolaethau os gwelir nad yw rheolaethau mewnol yn gweithredu cystal â'r bwriad ac yn dysgu gwersi o ddigwyddiadau twyll. Mae'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol yn cynnal cysylltiadau uniongyrchol â phob cyfarwyddiaeth gwasanaeth i gyfleu gwybodaeth er mwyn helpu i osgoi twyll yn y dyfodol.<br>• mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd rhan yn ymarfer paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol a gwiriadau lleol eraill (fel y gyflogres).<br>• mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio meddalwedd rheoli achosion i gofnodi holl wendidau'r system fel y'u nodwyd o ganlyniad i ymchwiliadau a/neu ymarferion atal a chanfod rhagweithiol. Agwedd bwysig ar y feddalwedd hon yw cofnodi'r gwersi a ddysgwyd.<br>Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:<br>• ychydig o enghreifftiau yn unig o ddadansoddiadau data yn cael ei defnyddio fel ffordd o atal twyll a nodwyd gan ein hadolygiad cenedlaethol, sef ymarfer paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol yn bennaf. |

| Meysydd gwaith | Canfyddiadau |
|---|---|
| Ystyriwyd a oes gan y sefydliad ymateb priodol i dwyll.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• cynllun ymateb i dwyll cynhwysfawr sy'n nodi trefniadau clir ar gyfer adrodd twyll ac ymchwilio i honiadau o dwyll;<br>• camau i sicrhau bod pob honiad o dwyll yn cael ei asesu;<br>• gweithdrefnau wedi'u dogfennu ar gyfer cynnal ymchwiliadau twyll sy'n dilyn arferion proffesiynol priodol ac yn unol â'r cynllun ymateb i dwyll;<br>• ystyried yr ystod lawn o sancsiynau sydd ar gael, a cheisio gwneud yn iawn (er enghraifft adennill arian ac asedau) lle y bo'n briodol;<br>• system rheoli achosion briodol i gofnodi a monitro cynnydd achosion posibl o dwyll; a<br>• chydweithio â phartneriaid allanol i fynd i'r afael â thwyll. | Gwelsom yr arfer da canlynol:<br>• Mae Polisi Atal Twyll, Llwgrwobrwyo ac Arferion Llwgr yr Ymddiriedolaeth yn nodi gweithdrefnau ar gyfer cynnal ymchwiliadau yn unol â gofynion statudol ac arfer da.<br>• staff cymwysedig yn ymchwilio i bob achos o dwyll tybiedig, ac yn unol â'r Cynllun Ymateb i Dwyll. Adroddir ar ganlyniadau ymchwiliadau i'r Pwyllgor Archwilio ac i Awdurdod Atal Twyll y GIG.<br>• mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r ystod lawn o sancsiynau sydd ar gael (camau disgyblu staff, camau sifil a chamau troseddol) ac mae'n ceisio adennill arian lle y bo'n briodol ac yn gost-effeithiol gwneud hynny.<br>• mae gan yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol fynediad at dimau ymchwilio twyll arbenigol e.e. gwyliadwriaeth, gwaith fforensig ar gyfrifiaduron, adfer asedau, ac ymchwiliadau ariannol drwy gyrff cenedlaethol gan gynnwys Awdurdod Atal Twyll y GIG.<br>• cofnodir pob ymchwiliad ar feddalwedd rheoli achosion. Mae'r hyn a ddysgir o dwyll yn cael ei rannu â staff priodol i gymryd camau a gweithredu newidiadau i systemau a gweithdrefnau lle y bo'n briodol.<br>Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella. |

| Meysydd gwaith | Canfyddiadau |
| --- | --- |
| Ystyriwyd a oes gan y sefydliad weithdrefn adrodd a chraffu priodol ar waith i sicrhau bod ei ddiwylliant a'i fframwaith atal twyll yn gweithredu'n effeithiol.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• cofnod yn cael ei gadw o golledion ac adenillion twyll;<br>• y Pwyllgor Archwilio yn mynd ati'n rhagweithiol i atal twyll a hyrwyddo diwylliant atal twyll effeithiol; a'r<br>• Pwyllgor Archwilio yn herio ac yn adolygu gwaith atal twyll, a sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas ag atal twyll. | Gwelsom yr arfer da canlynol:<br>• mae cofnod o golledion ac adenillion twyll a adroddir i Awdurdod Atal Twyll y GIG Cymru, y Pwyllgor Archwilio (manylion yn adran 'Dwyn i Gyfrif' pob diweddariad chwarterol a ddarperir gan yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol), ac sydd wedi'i gynnwys yn adroddiad atal twyll blynyddol yr Ymddiriedolaeth.<br>• mae'r Pwyllgor Archwilio yn goruchwylio ac yn craffu ar weithgareddau atal twyll ac yn llofnodi'r cynllun gwaith atal twyll blynyddol.<br>• mae'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol yn darparu adroddiad ar y sefyllfa ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio ym mhob un o'i gyfarfodydd. Mae strwythur clir a chyson i'r adroddiadau ac maent yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r arfer da disgwyliedig a amlinellir yn y golofn **Meysydd Gwaith** gyferbyn.<br>Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella. |

# Atodiad 1

## Adnoddau atal twyll

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi nifer yr adnoddau Arbenigwr Atal Twyll Lleol (AATLI) fesul 1,000 o staff.

**Arddangosyn 3: Nifer yr adnoddau AATLI fesul 1,000 o staff (yn nhrefn yr uchaf i'r isaf)**

| | AATLI WTE | Cyfanswm nifer y staff o fewn y sefydliad | AATLI WTE fesul 1,000 o staff (cyfrif pennau) |
|---|---|---|---|
| Addysg a Gwella Iechyd Cymru[1] | 0.2 | 280 | 0.71 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 2.0 | 3,535 | 0.57 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys[2] | 1.2 | 2,286 | 0.52 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg[2] | 2.6 | 11,944 | 0.22 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 2.0 | 10,032 | 0.20 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 2.6 | 13,659 | 0.19 |
| **GIG Cymru (cyfartaledd)** | **18.2** | **94,614** | **0.19** |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe[2] | 2.2 | 12,962 | 0.17 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 2.9 | 18,491 | 0.16 |
| Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru[1] | 0.3 | 1,903 | 0.16 |
| Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre[1] | 0.4 | 4,411 | 0.16 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro[1] | 1.8 | 15,111 | 0.12 |

[1] Mae Tîm AATLI Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hefyd yn darparu gwasanaethau i Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth blynyddol.

[2] Mae Tîm AATLI Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe hefyd yn darparu gwasanaethau i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth blynyddol.

Ffynhonnell: Awdurdod Atal Twyll GIG Cymru, Adroddiad Perfformiad Gweithredol 2019-20 (Chwarter 3), a Chyfrif Pennau StatsCymru ar 30 Medi 2019 (a dynnwyd o system Cofnod Staff Electronig y GIG).

# Atodiad 2

## Ymateb y rheolwyr

Mae'r tabl canlynol yn nodi ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i'r meysydd i'w gwella.

Dyddiad cwblhau: 24 Mehefin 2020 (LCFM – Rheolwr Atal Twyll Lleol).

**Arddangosyn 4: ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i'r meysydd i'w gwella.**

| Cyf. | Maes i'w wella | Canlyniad/ mantais arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I1 | **Hyfforddiant atal twyll**<br>Gweithredu hyfforddiant atal twyll gorfodol ar gyfer rhai neu bob un o'r grwpiau staff. | Sicrhau bod gan staff ddealltwriaeth glir o'r materion a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau atal twyll. | Ydy | Do | Camau a nodwyd:<br><br>Cyflwyno achos dros weithredu i arweinwyr y gwasanaeth addysg, a'r Cyfarwyddwr Cyllid i'w ystyried. Gellid cael cefnogaeth drwy ymgynghori â'r Pwyllgor Archwilio.<br><br>Mae'r maes gwaith hwn eisoes wedi'i nodi yn y cynllun gwaith blynyddol, er yn hanesyddol gyda'r gofynion ar y porth | Mis Medi 2020 | Chris Turley Cyfarwyddwr Cyllid /<br><br>Carl Window Rheolwr Atal Twyll Lleol |

| Cyf. | Maes i'w wella | Canlyniad/ mantais arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | dysgu gorfodol, yn enwedig o fewn y timau gweithrediadau, nid yw Atal Twyll wedi cael ei ystyried yn flaenoriaeth uchel mewn perthynas â'r meysydd dysgu craidd eraill.<br><br>Bydd y Rheolwr Atal Twyll Lleol yn rhoi sicrwydd y bydd yn ailedrych ar hyn ac yn cyflwyno achos dros angen yn hyn o beth. | | |
| I2 | **Capasiti staff atal twyll**<br>Ystyried y capasiti Arbenigwr Atal Twyll Lleol sydd ei angen i ariannu'r lefelau gofynnol o waith rhagweithiol ac ymchwiliol, gan | Cynyddu cymaint â phosib botensial y Gwasanaeth Atal Twyll a sicrhau ei gydnerthedd. | Ydy | Do | Camau a nodwyd:<br><br>Adolygu ac ystyried unrhyw anghenion datblygu a hyfforddi, ochr yn ochr â sicrhau y gellir dibynnu ar gymorth gan dîm Gwasanaeth Atal Twyll Cymru ar adegau pan | Yn parhau | Chris Turley, Cyfarwyddwr Cyllid<br><br>Carl Window, Rheolwr Atal Twyll Lleol |

| Cyf. | Maes i'w wella | Canlyniad/ mantais arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | gynnwys hyfforddi staff, a meithrin cydnerthedd yn y tîm. | | | | allai gwasanaeth Atal Twyll yr Ymddiriedolaeth gael ei effeithio gan salwch / llai o adnoddau ac ati.<br>Mae cytundebau o'r fath eisoes ar waith gyda Gwasanaeth Atal Twyll Cymru, ond mae adolygiad o anghenion yn parhau i gael ei gwblhau'n flynyddol er mwyn cynnal cydnerthedd. | | |
| I3 | **Asesu risg**<br>Cynhyrchu asesiad risg atal twyll yn unol â phroses rheoli risg bresennol yr Ymddiriedolaeth, i ategu'r adolygiad blynyddol o'r risgiau a nodir | Er mwyn darparu cyfle cyfnodol ar gyfer asesiad risg mwy ffurfiol i gefnogi a llywio ymhellach y dull blynyddol o asesu risg. | Ydy | Do | Camau a nodwyd:<br><br>Mae dull risg cydgysylltiedig sy'n darparu'r hyn y gellir ei gyflawni bob blwyddyn ar ddechrau'r flwyddyn, eisoes yn bresennol drwy'r cynllun atal twyll blynyddol. | Mis Medi 2020 | Chris Turley, Cyfarwyddwr Cyllid<br><br>Carl Window, Rheolwr Atal Twyll Lleol |

| Cyf. | Maes i'w wella | Canlyniad/ mantais arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | mewn cynlluniau gwaith blynyddol. | | | | Fodd bynnag, mae'r Rheolwr Atal Twyll Lleol yn derbyn y dylai hyn gael ei ategu trwy gwblhau asesiad risg atal twyll penodol mwy ffurfiol, gan fod mecanweithiau amgen eisoes ar gyfer adolygu risg yn naturiol fel thema barhaus o fewn gwaith atal twyll.<br><br>Bydd y Rheolwr Atal Twyll Lleol yn ceisio annog a gwella'r gydnabyddiaeth o risg twyll gyda rheolwyr cofrestri risg lleol, fel eu bod yn cwmpasu risg twyll o fewn eu cofrestri lleol. | | |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.